Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Adran Rheoli Risg Gweithredol

Disgrifiad Swydd – U193

Teitl: Rheolwr Gwylfa Cudd-wybodaeth Gweithredol

Rôl: Rheolwr Gwylfa A

Diben : Cynorthwyo gyda datblygu, gweithredu a chynnal a chadw Polisïau a Strategaethau Cudd-wybodaeth Gweithredol.

Atebol i: Rheolwr Gorsaf A – Tîm Cudd-wybodaeth Gweithredol

Cyfrifoldebau Allweddol

1. Mynychu digwyddiadau gweithredol yn ôl y gofyn.
2. Cynorthwyo gyda datblygu strategaethau penodol ar gyfer gweithredu prosiectau ar Weithdrefnau Gweithredol Safonol, Treftadaeth, Cynlluniau Tactegol Gweithredol, system gwybodaeth MDT y Gwasanaeth a chefnogi anghenion cyfundrefnol a rhanbarthol.
3. Chwilio a chymryd cyfrifoldeb am ffrydiau gwaith sydd wedi'u dyrannu o fewn y Tîm Cudd-wybodaeth Gweithredol er mwyn datblygu Systemau a Gweithdrefnau Cudd-wybodaeth Gweithredol y Gwasanaeth.
4. Cynnal gweithgareddau er mwyn bodloni amcanion tîm a chynlluniau gwaith; asesu perfformiad, darparu adborth a chyfrannu at ddatrys problemau perfformiad o fewn y Tîm Cudd-wybodaeth Gweithredol.
5. Cyfrannu at ddatblygu newidiadau sy'n arddangos gwelliant parhaus o ran effeithlonrwydd y Gwasanaeth.
6. Cyfathrebu gydag a hysbysu rhanddeiliaid allweddol ar gynnydd prosiectau gan ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau.
7. Cynrychioli'r Tîm Cudd-wybodaeth Gweithredol mewn cyfarfodydd, fforymau a gweithgorau i gyfrannu tuag at y broses gwneud penderfyniadau.
8. Cynnal perthnasau gwaith gydag unigolion ac o fewn/ar draws timau er mwyn cefnogi datblygiad a chynnal cymhwysedd.
9. Arwain, rheoli a hyrwyddo pob agwedd ar degwch a chydraddoldeb.
10. Arwain, rheoli a hyrwyddo pob agwedd ar Iechyd a Diogelwch.

Tasgau/Swyddogaethau Allweddol

1. Arwain gwaith timau ac unigolion i gyflawni eu hamcanion. Cynllunio gwaith timau ac unigolion. Asesu gwaith timau ac unigolion. Darparu adborth i dimau ac unigolion ar eu gwaith. **WM1**

2. Cynnal gweithgareddau i gwrdd â'r gofynion. Cynnal gweithgareddau gwaith i gwrdd â'r gofynion. Cynnal amgylchiadau gwaith iach, diogel a chynhyrchiol. Gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i weithgareddau gwaith. **WM2**

3. Rheoli gwybodaeth ar gyfer gweithredu. Casglu gwybodaeth angenrheidiol. Hysbysu a chynghori eraill. Cynnal cyfarfodydd. **WM3**

4. Cymryd cyfrifoldeb dros berfformiad effeithiol. Cymryd cyfrifoldeb dros berfformiad personol. Sefydlu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gyda phobl. Datblygu'ch sgiliau'ch hun i wella'ch perfformiad. **WM4**

5. Cynorthwyo datblygiad timau ac unigolion. Cyfrannu at ganfod anghenion datblygu. Cyfrannu at gynllunio datblygiad timau ac unigolion. Cyfrannu at weithgareddau datblygu. Cyfrannu at asesu pobl yn erbyn amcanion datblygu. **WM5**

6. Ymchwilio i ddigwyddiadau ac adrodd amdanynt i hysbysu arfer y dyfodol. Casglu gwybodaeth i gefnogi ymchwilio digwyddiad. Adrodd am ganfyddiadau a chasgliadau ymchwiliad. **WM6**

7. Arwain a chefnogi pobl i ddatrys digwyddiadau gweithredol. Cynllunio camau i gwrdd ag anghenion digwyddiad. Rhoi camau ar waith i gwrdd â'r amcanion a gynllunnir. Cau cyfnod gweithredol digwyddiad. Trafod y sefyllfa gyda phobl yn dilyn y digwyddiad. **WM7**

8. Cefnogi defnydd effeithlon ar adnoddau. Gwneud argymhellion ar gyfer defnyddio adnoddau. Cyfrannu at reoli adnoddau. **WM9**

9. Caffael, storio a chyhoeddi adnoddau er mwyn darparu gwasanaeth. Monitro a chaffael adnoddau i fodloni gofynion y gwasanaeth. Monitro storio adnoddau corfforol. Rheoli materion adnoddau i gefnogi trosglwyddiad gwasanaeth. **WM10**

10. Ymateb i berfformiad gwael o fewn eich tîm. Cynorthwyo aelodau o'r tîm sydd â phroblemau sy'n effeithio ar eu perfformiad. Cyfrannu at roi gweithdrefnau disgyblaeth a chwyno ar waith. **WM11**

11. Hyrwyddo pob agwedd ar gydraddoldeb a thegwch yn y gweithle a sicrhau y glynir ar Gynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth ar bob adeg.

12. Hyrwyddo Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch 1999 a deddfwriaeth arall o'r fath fel sy'n briodol i sefyllfa waith yr unigolyn. Yn fwy penodol, rhaid i chi gymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch chi ac eraill a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd gan unioni, cyn belled ag sydd ymarferol resymol neu adrodd i'r uwch reolwyr, unrhyw sefyllfa waith a allai achosi perygl difrifol neu gyfagos. Mae canllawiau mwy penodol ar gyfrifoldebau unigolion ar gael yn OPPD/-14 [Iechyd a Diogelwch] - HSGN 2 [Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol].